

Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodreath Leol Ffurflen Optio Allan



Ni allwch optio allan o'r cynllun pensiwn cyn eich bod wedi dechrau cyflogaeth. Os ydych yn cwblhau'r ffurflen cyn dyddiad dechrau eich cyflogaeth caiff y ffurflen ei hystyried yn opsiwn annilys, a bydd yn rhaid cwblhau ffurflen arall. Dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau i **adran y Gyflogres neu Adnoddau Dynol eich cyflogwr. Dylai cyflogeion Caerdydd ar Waith ei dychwelyd i Caerdydd ar Waith.**

Mae'r ffurflen hon at eich defnydd personol chi ac ni ddylai gael ei chopio a'i rhoi i rywun arall at ei ddefnydd ei hun. Dylai unrhyw un sydd am optio allan o'r Cynllun Pensiwn gysylltu â'r Tîm Pensiynau ar 029 20872334 neu e-bostio pensiynau@caerdydd.gov.uk

DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENNAU

Cyenw:		Teitl:	
Enwau Cyntaf:			
Cyfeiriad:			
Dyddiad Geni:		Rhif cyflog:	
		Rhif YG:	
Cyflogwr:			

Os oes gennych fwy nag un swydd, rhestrwch deitlau a rhifau cyflogaeth y swyddi rydych am eu hoptio allan.

Teitl Swydd:		Rhif Cyflogaeth:	
Teitl Swydd:		Rhif Cyflogaeth:	

Rhoddaf hysbysiad drwy hyn nad wyf am aros yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Deallaf drwy optio allan o'r cynllun pensiwn fy mod yn ildio fy hawl i gael buddion y Cynllun Llywodraeth Leol gan gynnwys:

- Pensiwn diogel sy'n daladwy am oes sy'n cynyddu gyda chostau byw
- Arian parod di-dreth – yr opsiwn i gyfnwio rhan o'm pensiwn am arian parod di-dreth wrth ymddeol
- Ymddeol cynnar gwirfoddol (o 55 oed)
- Yswiriant salwch difrifol – hawl i pensiwn ar unwaith os oes angen ymddeol oherwydd mathau penodol o salwch difrifol.
- Yswiriant Dileu Swydd – taliad pensiwn ar unwaith os caiff fy swydd ei dileu a'm bod yn 55+ oed
- Yswiriant bywyd – cyfandaliad o 3 gwaith fy nhâl pensiynadwy blynyddol os byddaf yn marw yn ystod gwasanaeth pensiynadwy.
- Yswiriant i'm teulu os byddaf yn marw – gan gynnwys pensiwn goroeswr i'm gŵr neu wraig neu bartner sifil neu bartner cyd-fyw a enwebir

Darllenwch y nodiadau drosodd cyn cwblhau'r ffurflen.

Cadarnhaf fy mod am optio allan o'r cynllun pensiwn ar gyfer y swyddi a nodir ar y ffurflen hon.

Llofnod: _____ Dyddiad: _____

Nodiadau ar optio allan

1. Waeth beth fo'ch rhesymau dros optio allan o'r cynllun, dylech ystyried hyn yn ofalus iawn cyn gwneud penderfyniad terfynol. Efallai y dylech geisio cyngor ariannol cyn penderfynu optio allan. Os ydych yn optio allan o'r CPLIL yn sgîl cyngor a gawsoch dylech ofyn am y cyngor hwn yn ysgrifenedig.
2. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun pensiwn (gan gynnwys canllaw cynllun llawn) ar gael yn www.lgpsmember.org.uk neu drwy gysylltu â'r Tîm Pensiynau yn pensiynau@caerdydd.gov.uk.
3. Ni fydd optio allan o'r Cynllun Pensiwn o reidrwydd yn arbed cymaint o gyflog ag y tybiwch. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwch yn talu mwy o dreth ac Yswiriant Gwladol wrth optio allan o'r CPLIL. Bydd trethdalwr cyfradd sylfaenol sy'n talu cyfraniadau pensiwn o £100 y mis yn talu £20 yn fwy o dreth a bydd ei gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cynyddu gan tua'r un faint os bydd yn optio allan.
4. Os dewiswch optio allan o'r CPLIL cyn cwblhau 3 mis o aelodaeth cewch eich trin fel rhywun sydd heb fod yn aelod o'r cynllun pensiwn erioed a chewch ad-daliad o gyfraniadau drwy eich tâl.
5. Os byddwch yn optio allan ar ôl 3 mis, ond gyda llai na 2 flynedd o aelodaeth, onid oes gennych hawliau pensiwn Llywodraeth Leol eraill neu'ch bod wedi trosglwyddo hawliad o gynllun pensiwn arall, gallech fod â hawl i ad-daliad o hyd. Bydd angen i chi wneud cais i'r Tîm Pensiynau am ad-daliad cyfraniadau.
6. Os oes gennych fwy na 2 flynedd o aelodaeth bydd gennych hawl i bensiwn gohiriedig y gallwch ei adael yn y CPLIL nes i chi ymddeol neu ei symud i gynllun pensiwn arall.
7. Os optiwch allan o aelodaeth o'r CPLIL a'ch bod yn newid eich meddwl gallwch optio'n ôl i mewn i'r cynllun os ydych dan 75 oed ac mewn cyflogaeth sy'n caniatáu i chi fod yn aelod. Fodd bynnag, os ydych wedi cael pensiwn gohiriedig, ni fyddwch yn gallu cyfuno'r ddau gyfnod o aelodaeth.
8. Mae'r hysbysiad optio allan hwn yn berthnasol i'r cyflogwr a'r swyddi rydych wedi'u nodi ar y ffurflen hon. Os oes gennych gyflogaeth bellach naill ai gyda'r cyflogwr hwn neu un arall, naill ai'n awr neu yn y dyfodol, a'ch bod am ei hoptio allan, bydd angen i chi gwblhau ffurflen optio allan arall. Rhoddir y ffurflen hon gan y gweinyddwr pensiynau ar gyfer y cynllun.

Ni all unrhyw beth yn y datganiad uchod ddisodli darpariaethau Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Os bydd unrhyw anghydfod, darpariaethau'r Rheoliadau gaiff flaenoriaeth.

BYDD EICH CYFLOGWR YN LLENWI GWEDDILL Y FFURFLEN HON

2. Eich cyflogwr sydd angen cwblhau'r adran hon

Dyddiad Dod i Ben Cyflogaeth Bensiynadwy: _____

Cyfraniadau wedi'u Had-dalu? Do / Naddo / Nis talwyd (Rhowch gylch)

Llofnod: _____ Enw: _____ Dyddiad: _____

Adran: _____ Awdurdod: _____ Rhif Ffôn: _____

**Dychwelwch ffurflenni wedi'u cwblhau i:
Cyngor Caerdydd, Tîm Pensiynau, Ystafell 252, Neuadd Y Sir, Caerdydd, CF10 4UW**